**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-970
Ein cyf/Our ref LG/01400/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

29 Mehefin 2020

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr ar 1 Mehefin am Ddeiseb P-05-970, yn gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniad i beidio â rhoi arian argyfwng i gefnogi Sŵau ac Acwaria.

Mae'r ddeiseb yn camarwain trwy ddatgan bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â rhoi arian argyfwng i gefnogi Swau ac Acwaria yn sgil Covid-19. Nid felly y mae.

Ni chaf rannu manylion achosion unigol â chi ond mae nifer fawr o'n sŵau ac acwaria wedi derbyn arian o Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru sy'n werth £500 miliwn ac yn unigryw i Gymru.

Rydym wedi rhoi gwybodaeth o'r dechrau i bob sw drwyddedig yng Nghymru am y cynlluniau y gallent wneud cais am arian iddynt. Rydym wedi cysylltu'n rheolaidd â'r sŵau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi dweud eu bod wedi manteisio ar yr hyn sydd ar gael a naill ai wedi cael arian trwy'r cynlluniau amrywiol neu wedi gwneud cais.

Nod y Gronfa Cadernid yw helpu economi, busnesau ac elusennau Cymru sydd wedi gweld cwymp sydyn yn eu hincwm oherwydd y coronafeirws ac mae llawer o sŵau wedi manteisio ar y pecyn cymorth hael hwn i'w helpu i ofalu am les eu hanifeiliaid a'u hiechyd ariannol.

Diolch i'r Gronfa Cadernid yng Nghymru, rydym wedi gallu rhoi arian argyfwng i Sŵau ac Acwaria heb orfod sefydlu cynllun arbennig ar gyfer y sector. Mae hyn yn ddefnydd mwy ymarferol o'r arian ac yn golygu ein bod wedi gallu rhoi mwy nag y byddem o dan gynllun penodol i'r sector a fyddai'n canolbwyntio'n unig ar les anifeiliaid heb ystyried y gorbenion a'r costau ychwanegol rydym yn gwybod y mae angen i sŵau ac acwaria dalu amdanynt er mwyn i'w busnes allu parhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’n werth esbonio bod £14 miliwn y Gronfa Sŵau yn Lloegr yn cynnwys dyraniad fformiwla Barnett i’r Gweinyddiaethau Datganoledig, gyda’r dyraniad i Gymru’n cael ei drefnu’n ganolog.  Ar sail yr hyn a neilltuwyd i Lywodraeth Cymru a bwrw y byddai pob un o’r 30 sw drwyddedig yng Nghymru’n gwneud cais, mae’r arian sydd eisoes wedi’i neilltuo trwy’r Gronfa Cadernid i’r sŵau sydd wedi gwneud cais yn sylweddol uwch nag y byddai cynllun penodol i’r sector yng Nghymru wedi gallu ei roi.

Rydym fodd bynnag yn cadw golwg ar y cymorth sy’n cael ei gynnig er mwyn gallu ymateb i anghenion sŵau ac acwaria Cymru.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs